



Ymweld ag Eryri?

Ers canrifoedd, mae pobl wedi dod yma er mwyn treulio eu hamser yn un o ardaloedd mwyaf godidog Prydain, os nad y byd!

Yn wir, twristiaeth yw prif ddiwydiant Eryri erbyn heddiw. Mae tua 10 miliwn o ymwelwyr yn ymweld ar Parc Cenedlaethol bob blwyddyn ac mae pob un yn gwario rhywfaint o arian tra yma.

Felly, fe fedrwch ddechrau ddychmygu faint o arian sydd yn cael ei wario yma bob blwyddyn gan yr ymwelwyr sydd yn dod yma o bob rhan o'r byd!

Ymwelwyr 'ddoe'

Mae 'ymwelwyr' wedi dod i Eryri ers canrifoedd ond rhaid cydnabod mai yn ystod cyfnod Brenhines Oes Fictoria y tyfodd Eryri i fod yn 'ganolfan ar gyfer ymwelwyr' go iawn!

Y prif reswm am hyn oedd dyfodiad y rheilffyrdd a'r brif heol yr A5 – y ddau yn cysylltu Eryri a dinasoedd mawr Lloegr.

Yn ystod cyfnod Oes Fictoria roedd Llundain, Birmingham, Manceinion a Lerpwl yn tyfu yn gyflym iawn ac o ganlyniad roedd y mwg a'r baw o'r ffatrioedd newydd yn gwneud y diansoedd yma yn lefydd budr ac afiach i fyw ynddynt.

Er mwyn dianc o'r mwg a budreddi, fe fyddai'r bobl gyfoethog o'r diansodd yn ymweld ag Eryri am yr 'awyr iach a'r golygfeydd godidog' ac yn cael ei cludo yma ar hyd y brif ffordd yr A5 neu ar yr rheilffordd. Tyfodd y pentrefi bychain oedd wedi ei lleoli agosaf at y rheilffordd a'r A5 yn ganolfannau cynnar i ymwelwyr, megis Betws y Coed, Capel Currig a Beddgelert gyda gwestai newydd moethus yn cael eu hadeiladu yno.

Ymwelwyr heddiw

Mae'r ardal bellach wedi tyfu mewn poblogrwydd i fod yn un o brif atyniadau ar gyfer ymwelwyr ym Mhrydain. Mae dros 12 miliwn o 'ymwelwyr dydd' yn ymweld ag Eryri bob blwyddyn bellach ac mae dros 90% ohonynt yn dod yma efo car!

Mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr yn dod o Loegr (fel yng nghyfnod Oes Fictoria!) ac mae llawer wedi bod yn Eryri o'r blaen.

Mae dinasoedd Birmingham, Manceinion a Lerpwl llai nag ychydig oriau i ffwrdd a digon hawdd heddiw yw neidio yn y car a theithio am tua 2 awr gan wybod fod golygfeydd arbennig Eryri yn eich disgwyl ar ddiwedd eich taith.

Pam eich bod yn teithio i Eryri ?

'i fwynhau'r golygfeydd syfrdanol'


'i ymlacio yn yr awyr iach'

'i wneud rhywbeth bywiog fel cerdded
a chanwio'

Beth mae pobl yn ei wneud yn Eryri?

Yng nghyfnod Oes Fictoria, byddai pobl yn dianc o'r dinasoedd er mwyn cerdded ac arlunio.

Dod i fwynhau'r golygfeydd a'r awyr iach y mae ymwelwyr heddiw ac er fod cerdded ac arlunio yn dal i fod yn weithgareddau poblogaidd mae yma gymaint mwy i'w wneud yn Eryri yn yr 21 Ganrif ar hugain!



Arolwg ymwelwyr 1994

Mae 'arolwg' yn ffurf ddefnyddiol o gael hyd i wybodaeth. Gellir gwneud pob math o arolygon i gael hyd i wybodaeth e.e.

'Faint o blant sy'n cerdded i'r ysgol?'

'Pa mor aml ydych chi'n ail gylchu eich gwastraff gartref?'

'Faint o ddraenogod sy'n byw yn yr ardd hon?'

Yn 1994 cafodd arolwg ei wneud i ddarganfod 'Pwy sy'n ymweld ag Eryri?'
Dyma rai o'r atebion

1. Faint o bobl sy'n ymweld ag Eryri bob blwyddyn?

'Rhwyng 6.6 miliwn a 10 miliwn bob blwyddyn.' (Mae hi'n anodd 'cyfri' nifer yr ymwelwyr yn union.)

- mae 49% o ymwelwyr yn ymweld am ddiwrnod yn unig
- mae 51% yn aros yn Eryri
- mae 92% o'r holl ymwelwyr yn dod i'r Parc Cenedlaethol gyda char
- mae 62% o'r holl ymwelwyr dydd yn mynd i Fetws y Coed.

2. Beth mae pobl yn gwneud ar ôl dod i Eryri?

- mae 62% yn dod i fwynhau'r 'atyniadau naturiol' (y mynyddoedd, llynnoedd, afonydd, rhaeadrau a thraethau)
- mae 26% yn dod am 'heddwch a thawelwch'
- mae 22% yn dod i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored
- daw eraill i ymweld â mannau poblogaidd – y trefi a'r pentrefi, y cestyll ac i ddringo'r Wyddfa.

Ffeithiau eraill am ymwelwyr

▲ 2 i 3 diwrnod

- dyma hyd eu arhosiad ar gyfartaledd

▲ llety hunan arlwyyaeth a gwersylla

- dyma hoff ddewis yr ymwelwyr o lefydd i aros.

▲ Ceir

- Mae'r rhan fwyaf yn teithio i Eryri mewn ceir.

▲ Betws y Coed

- mae hanner yr ymwelwyr yn treulio amser yn y pentref yma.

▲ 'heddwch a thawelwch'

- Dyma mae'r mwyafrif o'r ymwelwyr yn chwilio amdano

Y Dyfodol.

Bydd Eryri yn siwr o ddenu ymwelwyr am flynyddoedd i ddod ond rhaid i'r Parc Cenedlaethol a chyrrff eraill wneud yn siwr fod Eryri yn dal i fod yn atyniadol ar eu cyfer. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mwy o bobl Prydain yn penderfynnu aros yma ar gyfer ei gwyliau gan fod teithio dramor wedi mynd mor ddrud.

Mae hyn yn newyddion da i Eryri ar un llaw ond rhaid sicrhau nad yw tirwedd Eryri yn cael ei amharu gan y cynnydd mewn ymwelwyr.

Mi fydd mwy o ymwelwyr efallai yn golygu mwy o geir ar hyd ffyrdd cul Eryri. Mae cynlluniau ar droed i geisio perswadio ymwelwyr y dyfodol i ddefnyddio mwy ar drafndiaeth gyhoeddus wrth deithio o gwmpas Eryri gan adael eu ceir mewn canolfannau penodol. Syniad da wrth gwrs, ond mi fydd yn annodd cael cefnogaeth yr holl ymwelwyr i hyn dwi'n siwr!

Gyda chymaint o bobl bellach yn mwyhau cerdded yn y mynyddoedd, mae'n rhaid cymryd gofal o'r ucheldiroedd rhag ofn iddynt gael ei difrodi ymhellach gan 'ormod o draed y cerddwyr' a'r tywydd garw. Yn barod, mae nifer o'r llwybrau ar yr Wyddfa wedi gorfod cael eu cyweirio gan fod cymaint o bobl wedi eu defnyddio dros y blynyddoedd. Roedd nifer o'r hen lwybrau yma wedi cael ei difrodi a dim ond wrth wario llawer iawn o arian mae'r llwybrau yma unwaith eto yn ddiogel.

Mae ymwelwyr yn dod ac arian a chyfoeth i gymunedau a phobol Eryri. Ar yr un pryd mae cymaint o ymwelwyr yn medru creu problemau i'r cymunedau hynny.

Ein pwrpas fel Parc Cenedlaethol ydi sicrhau dyfodol Eryri, drwy geisio cael cydbwysedd rhwng gofynion y gymuned leol ar ymwelwyr sydd yn dod i Eryri o bob rhan o'r byd.....ac ar yr un pryd, sicrhau fod tirwedd Eryri yn cael ei warchod ar gyfer y dyfodol.

Os ydych chi yn ymweld, gallwch ein helpu i warchod Eryri trwy

- ▲ gadw at y llwybr
 - ▲ fynd a'ch sbwriel gartref neu i'r bin agosaf
- ▲ fynd trwy giataiau neu dros gamfa yn hyrach na ddringo wal neu ffens
 - ▲ gadw eich ci ar dennyn
 - ▲ ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i deithio o amgylch
- ▲ brynu nwyddau lleol yn hytrach na rhai wneir ymhell i ffwrdd.
 - ▲ Beidio hel blodau a phlanhigion

